

RHYBUDD O GYFARFOD



Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Jonathan Cawley

Prif Weithredwr

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Penrhyndeudraeth

Gwynedd LL48 6LF

Ffôn: (01766) 770274

E.bost: parc@eryri.llyw.cymru

Cyfarfod:	Pwyllgor Safonau
Dyddiad:	Dydd Gwener 2 Hydref 2026
Amser:	2.00 y.p.
Man Cyfarfod:	Swyddfa'r Parc Cenedlaethol, Penrhyndeudraeth a thros Zoom

Gofynnir i'r Aelodau ymuno â'r cyfarfod 15 munud cyn yr amser cychwyn dynodedig

Y Cynghorwyr :

Elfed Roberts, Nia Owen;

Naomi Luhde-Thompson.

Aelodau Annibynnol

Mr. Mark Jones, Mr. Robert Gwilym Lewis, Mr. Hywel Eifion Jones.



R H A G L E N

Pwyllgor Safonau

Rhif
Tudalen

1. **Ymddiheuriadau am absenoldeb a Datganiadau'r Cadeirydd**
2. **Datgan Budd**
Derbyn unrhyw ddatganiadau o fudd gan aelodau neu swyddogion mewn perthynas ag unrhyw eitem fusnes.
3. **Cofnodion** 3 - 5
Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid arwyddo cofnodion y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 27 Mawrth 2026 fel rhai cywir (copi yma) a derbyn y materion sy'n codi, er gwybodaeth.
4. **Enwebu aelodau ar gyfer y Panel Apeliadau Graddio Statws Sengl** 6
Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol. (Copi yma)
5. **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer Cymru** 7
Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol. (Copi yma)
6. **Caniatáu Goddefebau** 8 - 11
Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol. (Copi yma)
7. **Adroddiad Monitro Cwynion** 12 - 14
Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer. (Copi yma)
8. **Fforwm Cadeiryddion y Pwyllgorau Safonau – Dydd Llun 29 Mehefin 2026** 15 - 20
Derbyn cofnodion y cyfarfod, er gwybodaeth.



COFNODION
PWYLLGOR SAFONAU
DYDD GWENER 27 MAWRTH 2026
Swyddfa'r Parc Cenedlaethol

YN BRESENNOL:

Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd

Cynghorwyr Elfed Powell Roberts, Edgar Wyn Owen (*ex officio*);

Aelodau a benodwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru

Ms Naomi Luhde-Thompson

Aelodau Annibynnol

Mr Mark Jones (Cadeirydd), Mr Robert Gwilym Lewis;

Swyddogion

Iwan Jones, Bethan Hughes, Eifion Jones.

Cyhoeddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol y byddai'r cyfarfod yn cael ei recordio i gynorthwyo gwirio'r cofnodion.

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb a Datganiadau'r Cadeirydd

Nodwyd: gan fod y Pwyllgor yn brin o un Aelod Annibynnol, bod y Cynghorydd Nia Owen wedi tynnu nôl rhag mynychu'r cyfarfod i sicrhau'r cydbwysedd angenrheidiol o aelodau.

2. Datgan Budd

Dim.

3. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 19 Medi 2025.

Mabwysiadwyd y cofnodion, ac arwyddodd y Cadeirydd hwy fel rhai cywir.

Materion yn codi o'r cofnodion:

➤ *Eitem 1: Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd -*

Hysbysodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol fod y Pwyllgor yn parhau i fod yn brin o un aelod annibynnol; fod y swydd wedi ei hysbysebu ond mai un cais yn unig a dderbyniwyd ac nad oedd y person hwnnw'n gymwys i gael y swydd (am ei fod yn aelod o gyngor cymuned); fod y swydd ar fin cael ei hysbysebu eto a byddai swyddogion gwasanaethau democrataidd cynghorau siroedd Gwynedd, Conwy a Môn yn cael eu hysbysu o'r swydd er mwyn iddynt basio'r hysbyseb ymlaen at eu Haelodau Annibynnol nhw.

- *Eitem 5: Enwebu Aelodau ar gyfer y Panel Apeliadau Graddio Statws Sengl –* Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau hynny a fynychodd y diwrnod hyfforddi ar Werthuso Swydd ar 8 Hydref ac i'r sesiwn ar gynnal Apêl Gwerthusiad a gynhaliwyd ar 15 Hydref;
- *Eitem 6: Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer Cymru –* Cadarnhaodd fod gwybodaeth am yr achos a ddaeth gerbron yr Ombwdsman wedi ei hanfon at Aelodau'r Awdurdod, ynghyd â chynnig o hyfforddiant pellach ar y Cod Ymddygiad;
- *Eitem 9: Fforwm Cadeiryddion y Pwyllgorau Safonau –* Cadarnhaodd fod Fforwm Cadeiryddion y Pwyllgorau Safonau wedi ei hysbysu o benodiad Mr Mark Jones yn Gadeirydd newydd y Pwyllgor Safonau.

4. **Adroddiad Blynyddol i Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol yr Awdurdod**

Cyflwynwyd: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol.

Adroddwyd:

- cefndir y ddyletswydd statudol a'r hyn y bwriedid ei gyflwyno i Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol yr Awdurdod.

Nodwyd:

- bod y Cadeirydd yn fodlon cyflwyno'r adroddiad i'r CCB;
- dylid ychwanegu'r ffaith fod aelodau'r pwyllgor wedi mynychu'r hyfforddiant ar Apeliadau Graddio Statws Sengl at yr adroddiad.

Argymhellwyd:–

1. Trafod cynnwys yr adroddiad.
2. Cytuno ar gynnwys yr Adroddiad Blynyddol i'w gyflwyno i'r Awdurdod fel y nodir yn Adran 4 uchod yn amodol ar unrhyw ychwanegiadau/diwygiadau y gallai'r Pwyllgor Safonau ddymuno eu gwneud iddo.

*Penderfynwyd: **derbyn** yr Argymhelliad*

5. **Datganiadau o Fuddiannau Aelodau**

Cyflwynwyd: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol.

Adroddwyd:

- bod y nifer o ddatganiadau o fuddiannau'n is nag arfer a bod hyn o bosib oherwydd bod nifer y ceisiadau cynllunio wedi gostwng.

Argymhellwyd:– nodi'r adroddiad, er gwybodaeth

*Penderfynwyd: **derbyn** yr Argymhelliad*

6. **Adolygu Polisi Gwrth-dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygredigaeth**

Cyflwynwyd: Adroddiad gan y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer.

Adroddwyd:

- cefndir creu'r polisi a'r angen i'w adolygu

Nodwyd:

- bod y polisi drafft yn hawdd i'w ddarllen a bod yr enghreifftiau oedd yn yr adroddiad yn gymorth mawr.

Argymhellwyd:—

1. Trafod ac adolygu'r polisi drafft wedi'i ddiweddarau sydd wedi'i atodi.
2. Cymeradwyo'r Polisi Gwrth-dwyll, Llwgwrwobrwyo a Llygredd drafft diwygiedig i'w gyflwyno i Awdurdod y Parc Cenedlaethol i'w fabwysiadu.

*Penderfynwyd: **derbyn** yr Argymhelliad*

7. **Adolygu Polisi Datgelu Cyfrinachol (Seinio Rhybudd)**

Cyflwynwyd: Adroddiad gan y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer.

Adroddwyd:

- bod yr adroddiad hwn yn gysylltiedig â'r un diwethaf;
- bod enghreifftiau wedi eu hychwanegu i'r adroddiad gwreiddiol ym mhwyntiau 3.3 a 3.4 i egluro'r termau ymhellach;
- bod rhai enwau a thermau wedi eu cysoni yn y diweddariad.

Nodwyd:

- gellid cysylltu â'r Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer neu'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol petai bryder gan rywun am unrhyw agwedd o'r polisi.

Argymhellwyd:—

1. Trafod ac adolygu'r polisi drafft wedi'i ddiweddarau sydd wedi'i atodi
2. Cymeradwyo'r Polisi Datgelu Cyfrinachol (Seinio Rhybudd) drafft diwygiedig i'w gyflwyno i Awdurdod y Parc Cenedlaethol i'w fabwysiadu.

*Penderfynwyd: **derbyn** yr Argymhelliad*

8. **Fforwm Cadeiryddion y Pwyllgorau Safonau – Dydd Llun 26 Ionawr 2026**

Cyflwynwyd – Adroddiad ar gyfarfod Fforwm Cadeiryddion y Pwyllgorau Safonau a gynhaliwyd 26 Ionawr 2026 gan y Cadeirydd.

Adroddwyd:

- bod Mr Mark Jones, cadeirydd y Pwyllgor Safonau, wedi mynychu'r cyfarfod;
- nad oedd cofnodion y cyfarfod wedi eu dosbarthu hyd yma ond y byddant yn cael eu rhannu ymhlith yr aelodau unwaith byddant wedi eu derbyn;
- ei fod yn gyfarfod cynhyrchiol, ond nad oedd popeth a drafodwyd yn berthnasol i'r Awdurdod.

Argymhellwyd:— nodi'r adroddiad er gwybodaeth.

*Penderfynwyd:— **derbyn** yr Argymhelliad*

9. **Unrhyw Fusnes Arall**

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol ac i'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd am gyfarfod ag ef i'w gyflwyno i'r swydd o fod yn Gadeirydd y Pwyllgor Safonau.

Nododd hefyd mai hwn fyddai cyfarfod olaf y Pwyllgor Safonau i Iwan Jones, y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol. Diolchodd iddo am ei holl waith dros y blynyddoedd a dymunodd yn dda iddo ar ei ymddeoliad.

Daeth y cyfarfod i ben am 14:25

CYFARFOD	Pwyllgor Safonau
DYDDIAD	2 Hydref 2026
TEITL	Enwebu Aelodau ar gyfer y Panel Apeliadau Graddio Statws Sengl
ADRODDIAD GAN	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
PWRPAS	Penodi tri aelod a dau aelod wrth gefn ar y Panel Apeliadau Graddio Statws Sengl

1. CEFNDIR

Ar y 15fed o Fehefin 2011 mabwysiadodd yr Awdurdod Gynllun dirprwyo diwygiedig a oedd yn cynnwys newidiadau i gylch gorchwyl y Panel Apeliadau Graddio Statws Sengl. Mae'r trefniadau diwygiedig yn darparu y dylai aelodaeth gynnwys tri aelod ynghyd â dau aelod aelod wrth gefn / eilyddion, pob un i'w tynnu o aelodau'r Pwyllgor Safonau a'u dewis ganddynt. Mae'r cylch gorchwyl hefyd yn darparu, wrth benodi aelodau ar y Panel, y bydd y Pwyllgor Safonau yn ystyried yr angen am gynrychiolaeth briodol o ran rhywedd.

Rôl y Panel Apeliadau Graddio Statws Sengl yw ystyried apeliadau o benderfyniad y panel gwerthuso swyddi sydd fel arfer yn cael ei gynnal yn fewnol ar lefel swyddogion. Mae galw cyfarfod o'r Panel Apeliadau Graddio Statws Sengl yn ddigwyddiad anaml iawn. Yn hanesyddol, tra bod yr Awdurdod yn ymgymryd â'r broses o werthuso swyddi, mae'n wir dweud bod y Panel hwn yn weithredol bryd hynny. Fodd bynnag, mae angen panel o'r fath o hyd gan y gallai aelod o staff gyflwyno apêl ar unrhyw adeg sy'n anghytuno â phenderfyniad y panel gwerthuso swyddi.

Pan ystyriodd y Pwyllgor Safonau'r mater hwn ddiwethaf ar yr 19eg o Fedi 2025 fe benderfynodd benodi Mr Mark Jones, y Cynghorydd Elfed Roberts a'r Cynghorydd Nia Owen yn Aelodau o'r Panel Apeliadau Graddio Statws Sengl a phenodi Mr Roberts Gwilym Lewis a Ms Naomi Luhde-Thompson yn aelodau eilyddol/dirprwyol.

Mae angen i'r Pwyllgor Safonau ystyried aelodaeth y Panel Apeliadau Graddio Statws Sengl yn flynyddol yn dilyn CCB yr Awdurdod.

2. ARGYMHELLIAD

Penodi tri aelod a dau aelod wrth gefn / eilydd o aelodaeth y Pwyllgor Safonau i eistedd fel aelodau o'r Panel Apeliadau Graddio Statws Sengl.

CYFARFOD	Pwyllgor Safonau
DYDDIAD	2 Hydref 2026
TEITL	Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
ADRODDIAD GAN	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
PWRPAS	Cynghori'r Pwyllgor ar ddatblygiadau sy'n berthnasol i'r Awdurdod hwn

1. CEFNDIR

Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon.

Mae'r adroddiad llawn i'w weld ar wefan yr Ombwdsmon (www.ombwdsmon.cymru) o dan Gyhoeddiadau ac yna Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon.

Fel arfer, dim ond nifer fach iawn o gyfanswm y cwynion a dderbynnir gan yr Ombwdsmon sy'n ymwneud â'r Parciau Cenedlaethol ac rwy'n falch o allu adrodd bod y sefyllfa'n parhau'r un fath ar gyfer 2025/26.

Yn ystod y cyfnod hwn, cyfeiriwyd 324 o gwynion Cod Ymddygiad at yr Ombwdsmon yn 324, cynnydd o 3% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. O'r rhain, roedd 187 (58%) yn gwynion am gynghorwyr tref a chymuned a 136 (42%) am gynghorwyr awdurdod lleol, gydag 1 gŵyn bellach yn ymwneud â chynghorydd parc cenedlaethol.

Caeodd yr Ombwdsmon 351 o gwynion am y Cod Ymddygiad yn ystod 2025/26, ac ymchwiliwyd i 85 yn unig (tua 24%) ohonynt. Cyfeiriodd yr Ombwdsmon 15 o gwynion at Bwyllgorau Safonau'r awdurdodau lleol perthnasol neu at Banel Dyfarnu Cymru – yr un nifer â'r llynedd. Cadarnhaodd Pwyllgorau Safonau'r awdurdodau lleol perthnasol a Phanel Dyfarnu Cymru 81% o'r toriadau awgrymedig a gyfeiriwyd.

Nid oes unrhyw wybodaeth gyhoeddus ar gael ynglŷn â'r gŵyn a wnaed am y cynghorydd parc cenedlaethol.

2. ARGYMHELLIAD

Nodi cynnwys yr adroddiad.

CYFARFOD	Pwyllgor Safonau
DYDDIAD	2 Hydref 2026
TEITL	Caniatáu Goddefebau
ADRODDIAD GAN	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
PWRPAS	Caniatáu Goddefebau i Aelodau Cyngor Gwynedd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

1. CEFNDIR

Mae'r Pwyllgor Safonau wedi caniatáu goddefebau ar sawl achlysur yn flaenorol. Ar yr 19eg o Fedi 2025, penderfynodd y Pwyllgor Safonau ganiatáu goddefeb ar gyfer Aelodau a benodwyd gan Gyngor Gwynedd i'w galluogi i gymryd rhan lawn yn y broses o benderfynu ar faterion yn ymwneud â Chyngor Gwynedd am gyfnod hyd at 31^{ain} o Ragfyr 2026 oni bai y caiff ei ymestyn ymhellach trwy benderfyniad y Pwyllgor hwn cyn 31^{ain} o Ragfyr 2026. Penderfynodd y Pwyllgor Safonau hefyd ganiatáu goddefeb i Aelodau a benodwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i'w galluogi i gymryd rhan lawn wrth benderfynu ar faterion yn ymwneud â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy am gyfnod hyd at 31^{ain} o Ragfyr 2026 oni bai ei fod yn cael ei ymestyn ymhellach trwy benderfyniad y Pwyllgor hwn cyn 31^{ain} o Ragfyr 2026. Gan fod y cyfnod hwn i fod i ddod i ben cyn i'r Pwyllgor Safonau gyfarfod nesaf, mae'n bryd ystyried y mater ymhellach.

Cyn caniatáu'r goddefebau y cyfeiriwyd atynt uchod a chyn rhoi caniatâd arbennig, achosodd mabwysiadu'r Côd Ymddygiad newydd anawsterau o ran cworwm ar yr Awdurdod a'r Pwyllgor Cynllunio a Mynediad a hefyd oherwydd colli gwybodaeth leol gan fod yn rhaid i aelodau ymneilltuo o'r cyfarfod. O dan y Côd Ymddygiad blaenorol roedd yr aelodau wedi cael cymryd rhan yn y drafodaeth ac yn aml wedi bod yn ffynhonnell werthfawr o wybodaeth ar wahanol agweddau o geisiadau o'r fath.

Pan ystyriodd y Pwyllgor Safonau'r mater hwn ddiwethaf, roedd wedi rhoi sylw i Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Goddefebau) (Cymru) 2001 fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau Safonau, Ymchwiliadau, Goddefebau a Chyfeirio) (Cymru) (Diwygio) 2016 sy'n caniatáu i Bwyllgor Safonau'r Awdurdod hwn ganiatáu goddefeb lle:

- "2 (a) bod gan ddim llai na hanner aelodau'r awdurdod perthnasol neu bwyllgor o'r awdurdod (yn ôl fel y digwydd) y mae'r busnes i'w ystyried ganddo fuddiant sy'n ymwneud â'r busnes hwnnw;
- (b) bod gan ddim llai na hanner aelodau gweithrediaeth arweinydd a chabinet yr awdurdod perthnasol y mae'r busnes i'w ystyried ganddo fuddiant sy'n ymwneud â'r busnes hwnnw a bod naill ai paragraff (d) neu (e) hefyd yn gymwys;
- (c) yn achos cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol, byddai anallu'r aelod i gymryd rhan yn tarfu ar gydbwysedd gwleidyddol yr awdurdod perthnasol neu bwyllgor yr awdurdod y mae'r busnes i'w ystyried ganddo i'r graddau hynny fel bod byddai'r canlyniad yn debygol o gael ei effeithio;

(d) os yw natur buddiant yr aelod yn golygu na fyddai cyfranogiad yr aelod yn y busnes y mae'r buddiant yn ymwneud ag ef yn niweidio hyder y cyhoedd yn y modd y mae busnes yr awdurdod perthnasol yn cael ei gynnal;

(e) bod y buddiant yn gyffredin i'r aelod a chyfran sylweddol o'r cyhoedd;

(f) bod cyfranogiad yr aelod yn y busnes y mae'r buddiant yn ymwneud ag ef wedi'i gyfiawnhau gan rôl neu arbenigedd penodol yr aelod;

(g) bod y busnes y mae'r buddiant yn ymwneud ag ef i'w ystyried gan bwyllgor trosolygu a chraffu o'r awdurdod perthnasol ac nad yw buddiant yr aelod yn fuddiant ariannol;

(h) bod y busnes sydd i'w ystyried yn ymwneud â chyllid neu eiddo sefydliad gwirfoddol y mae'r aelod yn aelod o'i bwyllgor neu ei fwrdd rheoli ac eithrio fel cynrychiolydd yr awdurdod perthnasol ac nad oes gan yr aelod fuddiant arall yn y busnes hwnnw ar yr amod na fydd unrhyw oddefeb yn ymestyn i gymryd rhan mewn unrhyw bleidlais mewn perthynas â'r busnes hwnnw; neu

(i) os yw'n ymddangos i'r pwyllgor ei bod er budd trigolion ardal yr awdurdod perthnasol y dylid dileu'r anabledd ar yr amod bod hysbysiad ysgrifenedig o grant y goddefeb yn cael ei roi i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o fewn saith diwrnod yn y cyfryw fodd ag a bennir ganddo.

(j) ei bod yn ymddangos i'r pwyllgor fel arall ei bod yn briodol caniatáu goddefeb.

- 3 (1) *Rhaid i oddefeb a roddir gan bwyllgor safonau awdurdod perthnasol o dan adran 81(4) o'r Ddeddf ar y seiliau a nodir yn rheoliad 2(j) ac sy'n parhau mewn effaith, gael ei hadolygu gan y pwyllgor safonau unwaith bob cyfnod o 12 mis o'r dyddiad y rhoddir y goddefeb gyntaf.*

(2) Wrth gynnal adolygiad o dan baragraff (1) rhaid i'r pwyllgor safonau benderfynu a ddylai'r goddefeb barhau i gael effaith."

Roedd yn fodlon bod paragraff (a) a (d) uchod yn rhoi cyfiawnhad digonol dros ganiatáu goddefeb i aelodau a benodwyd gan Gyngor Gwynedd i gymryd rhan lawn yn y broses o benderfynu ar faterion yn ymwneud â Chyngor Gwynedd.

Mewn perthynas â'r aelodau hynny a benodwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, canfuwyd eu bod mewn sefyllfa ychydig yn wahanol gan nad oes unrhyw faterion yn ymwneud â chworwm yn gyffredinol. Canfu fodd bynnag fod paragraff (d) uchod yr un mor berthnasol i'r aelodau a benodwyd gan Gyngor Gwynedd ac aelodau a benodwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac ar y sail honno rhoddodd oddefeb i aelodau a benodwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i gymryd rhan lawn yn y penderfyniad ar faterion yn ymwneud â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

Gellir cadarnhau bod y goddefebau a ganiatawyd yn flaenorol gan y Pwyllgor Safonau wedi gweithio'n dda yn ymarferol gyda'r Awdurdod a'r Pwyllgor Cynllunio a Mynediad yn arbennig yn elwa o'r un peth mewn perthynas â sicrhau cworwm a dim colli gwybodaeth leol wrth benderfynu ar geisiadau. Yn ystod gweithrediad goddefeb blaenorol rhwng 2010 a 2012 bu ceisiadau cynllunio a oedd yn arbennig o ddadleuol. Roedd un enghraifft yn ymwneud â chais am dai gwarchod yn ardal Llan Ffestiniog ar dir ym mherchnogaeth Cyngor Gwynedd. Cymerodd aelodau Cyngor Gwynedd ran lawn yn y trafodion. Argymhelliad y swyddogion oedd caniatáu. Roedd gwrthwynebiadau lleol cryf i'r cynllun arfaethedig a derbyniodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol blaenorol ohebiaeth gan aelodau'r cyhoedd yn lleisio pryder bod aelodau Cyngor Gwynedd yn cael cymryd rhan yn y mater. Fodd bynnag, ar yr achlysur hwnnw, yn dilyn ymweliad safle, penderfyniad y pwyllgor Cynllunio a Mynediad oedd gwrthod y cais. Roedd y penderfyniad hwn yn destun apêl na fu'n llwyddiannus ac felly rhyddhawyd barn yr aelodau.

Roedd cais cynllunio dadleuol arall yn ymwneud â chais gan Gyngor Gwynedd am ysgol ardal newydd. Unwaith eto roedd argymhelliad swyddogion i'w gymeradwyo ac unwaith eto roedd gwrthwynebiad lleol cryf i'r cynllun. Roedd rhan o'r gwrthwynebiad hwnnw yn canolbwyntio ar y

ffaith y byddai aelodau Cyngor Gwynedd yn cael cymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau . Mynegwyd pryderon bod rhai o'r aelodau hynny wedi pleidleisio ar y mater fel rhan o gymeradwyaeth Cyngor Gwynedd i'w strategaeth. Barn y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol blaenorol oedd nad oedd unrhyw benderfyniad wedi'i wneud gan Gyngor Gwynedd ar y cais cynllunio ei hun gan mai'r Awdurdod hwn yw'r Awdurdod Cynllunio ar gyfer yr ardal. Roedd y cais i benderfynu ar rinweddau cynllunio'r cais ac roedd y drafodaeth yn y pwyllgor yn dilyn yn fras i rinweddau cynllunio'r cais ac eithrio siaradwr cyhoeddus ar ran yr Ymgeisydd a gyfeiriodd at faterion heb fod yn rhai cynllunio. Ar yr achlysur hwn penderfynodd yr aelodau ddilyn argymhelliad y swyddog a rhoddwyd caniatâd cynllunio. Pleidleisiodd mwyafrif aelodau Cyngor Gwynedd o blaid y cais ond roedd ymataliadau hefyd a phleidleisiodd rhai yn erbyn y cais hefyd. Hyd yn oed petai holl aelodau Cyngor Gwynedd wedi datgan a thynnu'n ôl o'r cyfarfod, ar y dybiaeth na fyddai'r aelodau â phleidlais sydd ar ôl wedi pleidleisio'n wahanol, byddai'r cais yn dal wedi bod yn llwyddiannus er ar fwyafrif llai i lawr o fwyafrif o 9 o blaid a 4 yn erbyn i 5 o blaid gyda 2 yn erbyn.

Er bod pryder diamheuol mewn perthynas â'r cais hwn, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol blaenorol na welwyd unrhyw dystiolaeth o afreoleidd-dra gan aelodau Cyngor Gwynedd. Mae ceisiadau o'r fath yn eu hanfod yn geisiadau dadleuol ar y cyfan gydag ystod eang o safbwyntiau ond y penderfyniad terfynol oedd un i ganiatáu yn unol ag argymhelliad swyddogion.

Ym mis Medi 2018 ymdriniodd y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad â mater dadleuol arall sef y cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer ffordd liniaru Llanbedr. Yn y mater hwn datganodd aelodau Cyngor Gwynedd ddiddordeb ond yn dibynnu ar y goddefeb a ganiatawyd gan y Pwyllgor Safonau a chymerwyd rhan lawn wrth benderfynu ar y cais.

Derbyniwyd cwyn wedyn yn honni bod aelodau a benodwyd gan Gyngor Gwynedd wedi torri Côt Ymddygiad yr Aelodau wrth iddynt ystyried y cais cynllunio.

Mynegodd yr achwynydd bryderon bod aelodau a benodwyd gan Gyngor Gwynedd a oedd yn bresennol yn y cyfarfod, er eu bod wedi llofnodi datganiadau o ddiddordeb, yn cael cymryd rhan lawn yn y broses benderfynu a arweiniodd at roi caniatâd cynllunio i'r cais.

Ni chadarnhawyd y gŵyn gan fod y Pwyllgor Safonau, yn eu cyfarfod ar y 7fed o Orffennaf 2017, wedi caniatáu goddefeb cyffredinol i Aelodau a benodwyd gan Gyngor Gwynedd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy mewn amgylchiadau o'r fath, er mwyn galluogi'r Awdurdod i barhau i gynnal ei fusnes yn effeithiol. Rhoddwyd eglurhad llawn i'r achwynydd.

Cyfeiriodd yr achwynydd y mater at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, a chyfeiriodd hefyd at y ffaith mai dim ond 10 aelod allan o'r 18 posibl oedd yn bresennol yn y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad ar y diwrnod.

Eglurodd yr Ombwdsmon i'r achwynydd sut roedd y gyfraith ynghylch caniatáu goddefebau yn gweithio, yn ogystal â'r niferoedd cworwm sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith er mwyn i bwyllgor cynllunio fynd rhagddo. Roedd y ddau wedi cydymffurfio â gofynion cyfreithiol yn yr achos hwn. Felly, gwrthododd yr Ombwdsmon ymchwilio i'r mater ymhellach ar y sail ei fod yn benderfyniad a wnaethpwyd yn briodol y mae gan gorff cyhoeddus hawl i'w wneud.

Unwaith eto bu'r Pwyllgor Cynllunio a Mynediad yn ystyried Ffordd Liniaru Llanbedr ond y tro hwn nid oedd unrhyw gwynion ynghylch y defnydd o'r caniatâd arbennig gan aelodau Cyngor Gwynedd.

Yn ystod 2021 ddefnyddiwyd y goddefeb unwaith eto. Roedd y cais yn un cynhennus i ddymchwel cyn adeilad ysgol ac i godi 5 uned byw â chymorth yn Nolgellau. Y tro hwn penderfynodd y pwyllgor yn groes i argymhelliad swyddogion i wrthod caniatâd ar y sail y byddai'r datblygiad yn arwain at golli adeilad traddodiadol ac yn cael effaith negyddol ar amgylchedd hanesyddol ehangach Dolgellau. Rhoddwyd ail reswm hefyd sef nad oedd digon o wybodaeth wedi ei gyflwyno mewn perthynas â'r angen am y bwriad er mwyn i'r awdurdod cynllunio lleol wneud penderfyniad gwybodus ar effaith y datblygiad.

Y tro diwethaf defnyddiwyd y gollyngiad oedd mewn perthynas â chais cynllunio ar gyfer Pont y Soldiwr ym Metws-y-coed. Gwrandawodd y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad ar y cais ar y 5ed o Fawrth 2025. Fel yr adroddwyd yn flaenorol i'r Pwyllgor Safonau ar yr achlysur hwn, er nad oedd yn bosibl hysbysu'r aelodau mewn digon o amser i'w galluogi i fynychu'r Pwyllgor Cynllunio yn bersonol, rhoddwyd hysbysiad wedi hynny fel y gallai'r aelodau edrych drwy'r recordiad o'r un peth i asesu sut roedd y gollyngiad yn gweithio'n ymarferol, a nododd y Cynghorydd Nia Owen ei bod wedi canfod bod rhoi'r gollyngiad yn ddefnyddiol.

Os yw'r Pwyllgor Safonau o blaid rhoi goddefeb pellach rhaid pwysleisio, fel o'r blaen, na fyddai caniatáu goddefebau gyda'r fath delerau yn atal gweithredu unrhyw ran arall o'r Cod Ymddygiad felly, er enghraifft, pe bai aelod yn penodi gan Gyngor Gwynedd hefyd yn berchennog tir cyfagos i dir y cais ym mherchnogaeth Cyngor Gwynedd, er bod ganddo/ganddi fantais o oddefeb ar ei aelodaeth gyda Gwynedd byddai'n dal i orfod datgan buddiant sy'n rhagfarnu. Y rheswm am hyn yw y byddai'r penderfyniad yn effeithio ar dir yn ardal yr Awdurdod y mae ganddo/ganddi fuddiant llesiannol ynddo a byddai aelod o'r cyhoedd sydd â gwybodaeth o'r ffeithiau perthnasol yn rhesymol yn ystyried bod y buddiant personol mor arwyddocaol fel ei fod yn debygol o ragfarnu ei farn ef/hi ynghylch o ran budd y cyhoedd.

Ar ôl ystyried y materion hyn, rwyf o'r farn y byddai er budd yr Awdurdod i ganiatáu goddefebau i'r ddau aelod a benodir gan Gyngor Gwynedd (Sail 2 (a) a (d)) a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (Sail 2 (d)). am gyfnod penodol fel bod y Pwyllgor Safonau wedyn yn gallu ailymweld â'r mater ac asesu'r sefyllfa unwaith eto.

2. ARGYMHELLIAD

1. Caniatáu goddefeb i Aelodau a benodwyd gan Gyngor Gwynedd i'w galluogi i gymryd rhan lawn yn y broses o benderfynu ar faterion yn ymwneud â Chyngor Gwynedd am gyfnod hyd at 31^{ain} o Ragfyr 2027 oni bai y caiff ei ymestyn ymhellach trwy benderfyniad y Pwyllgor hwn cyn 31^{ain} o Ragfyr 2027.

2. Caniatáu goddefeb i Aelodau a benodwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i'w galluogi i gymryd rhan lawn yn y broses o benderfynu ar faterion sy'n ymwneud â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy am gyfnod hyd at 31^{ain} o Ragfyr 2027 oni bai y caiff ei ymestyn ymhellach drwy benderfyniad y Pwyllgor hwn cyn 31^{ain} o Ragfyr 2027.

3. PAPURAU CEFNDIR

Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Goddefebau) (Cymru) 2001

Rheoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau Safonau, Ymchwiliadau, Goddefebau ac Atgyfeirio) (Cymru) (Diwygio) 2016

CYFARFOD	Pwyllgor Safonau
DYDDIAD	2 Hydref 2026
TEITL	Adroddiad Monitro Cwynion
ADRODDIAD GAN	Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer a Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
PWRPAS	I adrodd ar y cwynion ysgrifenedig a dderbyniwyd gan yr Awdurdod

1. CEFNDIR

- 1.1. Mae pob cwyn ffurfiol yn cael ei chofrestru a'i monitro'n ganolog, fel rhan o'n hymrwymiad parhaus i sicrhau gofal cwsmeriaid rhagorol yn ein darpariaeth gwasanaeth. Derbyniodd yr Awdurdod 13 o gwynion ffurfiol yn ymwneud yn uniongyrchol â'r Awdurdod yn ystod blwyddyn ariannol 2025/26.
- 1.2. O'r 13 cwyn a dderbyniwyd, roedd 7 yn ymwneud â'r gwasanaeth cynllunio, 2 yn ymwneud â'r Gwasanaeth Cadwraeth, Coed ac Amaethyddiaeth, 1 yn ymwneud â phryderon GDPR, 1 yn ymwneud â'r Gwasanaeth Wardeinio 1 yn ymwneud â'r Gwasanaeth Eiddo ac 1 yn ymwneud â sbwriel ar ymylon ffyrdd.
- 1.3. Ymchwiliwyd yn drylwyr i bob cwyn, a derbyniwyd ymateb i bob un o fewn y targed o 15 diwrnod gwaith. O'r cwynion a ymchwiliwyd iddynt, cadarnhawyd neu gadarnhawyd 5 yn rhannol. Cyfeiriwyd un gŵyn wedi hynny at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i'w hymchwilio. Fodd bynnag, gwrthododd yr Ombwdsmon ymchwilio i'r mater ymhellach.
- 1.4. Lle mae safon gwasanaeth yr Awdurdod wedi methu, rydym wedi ymddiheuro'n briodol ac wedi cymryd camau i fynd i'r afael â'r problemau ar unwaith.
- 1.5. Mae crynodeb o'r cwynion a gadarnhawyd neu a gadarnhawyd yn rhannol wedi'i nodi yn yr atodiad.

2. ARGYMHELLIAD

2.1. Bod y Pwyllgor yn nodi cynnwys yr adroddiad

Crynodeb o Gwynion a Gadarnhawyd neu a Gadarnhawyd yn Rhannol

Gwasanaeth Cynllunio

Cyngor anghywir a diffyg ymateb gan Staff (Ebrill 2025)

Yn ystod ymweliad â'r swyddfa i edrych ar gais cynllunio, cynghorwyd yr achwynydd i gyflwyno gwrthwynebiad ar-lein. Fodd bynnag, nid oedd gan yr achwynydd y sgiliau na'r hyder angenrheidiol i gyflwyno gwrthwynebiad ar-lein. Dylai'r aelod o'r staff cynllunio fod wedi dweud wrthynt fod ganddynt yr opsiwn o gyflwyno gwrthwynebiad drwy e-bost, danfon y gŵyn â llaw neu drwy'r post yn ogystal ag ar-lein.

Yn ogystal, roedd yr achwynydd wedi gofyn i'r Swyddog Cynllunio eu hysbysu o ganlyniad y cais cynllunio. Pan na dderbyniwyd ymateb, aethpwyd ar drywydd y mater drwy alwadau ffôn ac e-byst, ond ni dderbyniwyd unrhyw ymateb.

Ymddiheurwyd i'r achwynydd am y ddau fater, a oedd yn is na'r safonau gwasanaeth disgwyledig.

Cwyn am Aelod o Staff (Gorffennaf 2025)

Derbyniwyd cwyn ynghylch ymddygiad aelod o staff a oedd yn cael ei ystyried yn swta ac yn anghymwynasgar gan yr achwynydd yn ystod dwy sgwrs ffôn lle gofynnwyd am eglurhad ynghylch ffi cais cynllunio.

Ymchwiliwyd i'r mater ac ymddiheurwyd i'r achwynydd. Trafodwyd y mater gyda'r aelod staff dan sylw, a oedd yn cynnwys trafodaeth ar y lefel briodol o wasanaeth a gofal cwsmer sy'n ofynnol wrth ddelio ag aelodau'r cyhoedd.

Cwyn am y Broses Cais Cynllunio (Chwefror 2026)

Derbyniwyd cwyn gan yr ymgeisydd cynllunio a'r asiant ynghylch sut y proseswyd cais cynllunio a lefel gyffredinol y cyfathrebu gan y Swyddog Cynllunio.

Nid oedd yr ymgeiswyr yn fodlon ymrwymo i gytundeb Adran 106 a oedd yn ofynnol i gyd-fynd â'u cais am annedd newydd, ac roeddent yn ymwybodol bod hyn yn golygu y byddai'r cais yn cael ei wrthod gan nad oedd yn cydymffurfio â pholisi. Hysbysodd yr asiant y Swyddog Cynllunio fod Aelod o'r Awdurdod wedi cytuno i 'alw' y cais i mewn i'r Pwyllgor Cynllunio a Mynediad. Ni hysbysodd y Swyddog Cynllunio'r asiant nad oedd wedi derbyn cais ysgrifenedig gan yr Aelod i 'alw'r cais i mewn' o fewn yr amserlen ofynnol. Dylai hefyd fod wedi egluro, heb y cais hwn, y byddai'r cais yn cael ei benderfynu o dan Bwerau Dirprwyedig. Gwrthodwyd y cais wedi hynny o dan Bwerau Dirprwyedig.

Methodd y diffyg cyfathrebu mewn perthynas â'r cais hwn â chyrraedd y safonau gwasanaeth disgwyledig, ac am hynny, fe ymddiheurwyd yn briodol a darparwyd cyngor ynghylch y ffordd orau ymlaen o ran ailgyflwyno'r cais cynllunio.

Gwasanaeth Cadwraeth, Coed ac Amaethyddiaeth

Pryder ynghylch Cemegau Ffo wrth waredu Rhododendron (Tachwedd 2025)

Derbyniwyd pryder gan dirfeddiannwr ynghylch y posibilrwydd o ffo cemegol o ganlyniad i waith a wnaed i waredu rhododendron trwy chwistrellu coesynnau - roedd gan y tîr feddiannwr bryder penodol oherwydd sensitifrwydd y tir cyfagos. Ataliwyd y gwaith tra bod y pryder yn cael ei adolygu a tra ceisiwyd barn broffesiynol.

Mae'r mater yn parhau tra yr ymchwilir i hyfywedd defnyddio dulliau gwaredu amgen heb gemegau, gan fanteisio ar gynnal yr ymchwil hwnnw tra bod rhaid atal y gwaith dros dymor nythu adar.

Gwasanaeth Eiddo

Cwyn ynghylch Aelod o Staff (Chwefror 2026)

Derbyniwyd cwyn gan denant yr Awdurdod ynghylch sut yr oedd aelod o staff wedi delio â'i denantiaeth dros y blynyddoedd.

Cynhaliwyd ymchwiliad trylwyr i'r hanes hir a pharhaus, ac ni chadarnhawyd rhai agweddau o'r gŵyn. Fodd bynnag, canfuwyd bod materion eraill yn ddilys a chadarnhawyd hwy. I gloi, canfuwyd bod lefel y gwasanaeth a dderbyniwyd gan yr Awdurdod wrth reoli eu tenantiaeth yn gyffredinol wedi syrthio ymhell o dan y safonau disgwyledig, ac fe ymddiheurwyd am hynny.

Wedi hynny, cyfeiriodd yr achwynydd y mater at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a wrthododd ymchwilio i'r mater ymhellach. Nododd yr Ombwdsmon yn ei hymateb ei bod yn fodlon bod yr Awdurdod wedi nodi a chymryd camau priodol i fynd i'r afael â'r methiannau cydnabyddedig er mwyn atal hyn rhag digwydd eto yn y dyfodol.

Fforwm Cadeiryddion Pwyllgorau Safonau Cenedlaethol

Dydd Llun 29 Mehefin 2026, 14:00–16:00 (Ar-lein)

Agenda

1. Croeso – y Cadeirydd Julia Hughes (JH)
2. Nodiadau'r cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 26 Ionawr 2026 (ynghlwm) ac unrhyw faterion yn codi – Pawb

Bydd nodiadau'r cyfarfodydd yn cael eu dosbarthu ar ôl pob cyfarfod i'r Cadeiryddion, a gellir eu rhannu â'u Pwyllgorau Safonau a'u Swyddogion Monitro.

3. Llywydd Panel Dyfarnu Cymru – y Barnwr Meleri Tudur
4. Diweddariad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) – Michelle Morris (MM)
5. Trafodaeth y Fforwm ar:
 - a) Achosion diweddar o ddiddordeb – Panel Dyfarnu Cymru (PDC) ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) yn y chwe mis blaenorol – Justine Cass (JC)
 - b) Gwrandawiadau – cyfle i rannu profiadau mewn amgylchedd dysgu diogel – Pawb
6. Eitem(au) a godwyd gan y Cadeiryddion – gwrandawiadau efelychiadol fel offeryn ymarferol ar gyfer hyfforddi a datblygu Pwyllgorau Safonau – Mel Jehu (MJ)
7. Etholiadau Llywodraeth Leol 2027 – deunyddiau sefydlu ar foeseg a safonau – Cerith Thomas (CT)
8. Unrhyw fater arall – Pawb
9. Dyddiad y cyfarfod nesaf – Dydd Llun 25 Ionawr 2027, 14:00–16:00, Ar-lein (i'w gadarnhau)

Fforwm Cadeiryddion y Pwyllgorau Safonau - Cymru

Dydd Llun, 29 Mehefin 2026 am 2pm, dros Teams

Cofnodion

1. Croeso a Phwrrpas

Croesawodd Julia Hughes (JH), y Cadeirydd, bawb i'r cyfarfod gan nodi presenoldeb cryf. Cafodd y Fforwm ei gadarnhau fel gofod diogel i rannu ymarfer, dysgu o brofiad a myfyrio ar y cyd ar faterion safonau ar draws Cymru. Nodwyd y byddai cofnodion y cyfarfod yn cael eu rhannu i Gadeiryddion Pwyllgor Safonau a Swyddogion Monitro.

2. Diweddariadau a Materion yn Codi

2.1 Protocol Penderfyniadau Lleol

Nododd y Cadeirydd bod gweithdy dilynol ar y Protocol Penderfyniadau Lleol wedi'i drefnu ar gyfer 2 Gorffennaf 2026. Pwrrpas y gweithdy yw profi adborth budd-ddeiliaid a helpu i roi cyngor i Lywodraeth Cymru. Gwahoddwyd Cadeiryddion i gyflwyno unrhyw safbwyntiau ymlaen llaw.

2.2 Addewid Cwrteisi a Pharch

Nododd y Cadeirydd hefyd fod fersiwn o'r Addewid Cwrteisi a Pharch sy'n benodol i Gymru wedi'i lansio yn Ebrill 2026.

3. Cofnodion cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd fel cofnod cywir. Amlygodd yr Aelodau ddysgeidiaeth allweddol o'r drafodaeth flaenorol, gan gynnwys newidiadau mewn rhai awdurdodau o ran cyfranogiad Arweinwyr Grŵp mewn prosesau safonau a gwerth parhaus ymarfer a rennir ar draws y Pwyllgorau Safonau.

4. Diweddariad Panel Dyfarnu Cymru

4.1 Swyddogaethau Panel Dyfarnu Cymru

Derbyniodd y Fforwm ddiweddariad gan y Barnwr Meleri Tudur, Llywydd Panel Dyfarnu Cymru, ar ei rôl a swyddogaethau. Roedd hyn yn cynnwys cyfeiriad at y Tribiwnlys Achos, sy'n ystyried penderfyniadau cychwynnol, a Thribiwnlysoedd Apêl, sy'n ystyried apeliadau yn erbyn penderfyniadau'r Pwyllgor Safonau.

4.2 Prosesau Allweddol

Cafodd yr Aelodau eu hatgoffa bod rhaid i geisiadau ar gyfer caniatâd i apelio penderfyniadau'r pwyllgor safonau gael eu cyflwyno o fewn 21 diwrnod a bod caniatâd yn cael ei roi os oes tebygolrwydd rhesymol o lwyddiant.

4.3 Negeseuon Allweddol

Adroddodd Panel Dyfarnu Cymru fod y llwyth achosion yn parhau i fod yn isel, er bod materion yn ymwneud â chamddefnyddio cyfryngau cymdeithasol yn cynyddu. Nododd yr aelodau hefyd fod tribiwnlysoedd achos dros dro, gan gynnwys gwahardd, yn parhau i fod ar gael ond nid ydynt yn cael eu defnyddio'n eang ar hyn o bryd.

4.4 Edrych Ymlaen

Wrth edrych ymlaen, rhagwelir digideiddio a diwygiad tribiwnlys, ac mae gwaith recriwtio yn digwydd i gynyddu nifer yr aelodau tribiwnlys a chryfhau capasiti'r Panel. Hefyd nododd y Fforwm fod mwy o ffurfioldeb yn debygol o fod mewn gwrandawiadau yn y dyfodol, gan adlewyrchu synnwyr ehangach fod tribiwnlysoedd yn wynebu digwyddiadau cynyddol o ddiffyg parch. Nododd Llywydd Panel Dyfarnu Cymru fod y Panel wedi dod o fewn fframwaith Safonau'r Gymraeg a bod disgwyl iddynt gydymffurfio'n llawn â'r safonau erbyn diwedd y flwyddyn.

4.5 Ymgysylltiad gyda'r Pwyllgorau Safonau

Nodwyd bod Panel Dyfarnu Cymru bellach yn cael ei hysbysu'n rheolaidd gan Swyddfa'r Ombwdsmon pan fydd penderfyniadau'r Pwyllgor Safonau yn cael eu cyflwyno, gan wella gwelededd apelïadau posibl. Anogwyd y Pwyllgorau Safonau i hysbysu Panel Dyfarnu Cymru yn uniongyrchol pan fydd penderfyniadau'n cael eu gwneud, er mwyn cynorthwyo'r Panel i ragweld a rheoli gweithgarwch apelio o fewn terfynau amser statudol. Dynododd Llywydd Panel Dyfarnu Cymru fod y Panel yn agored i dderbyn sylwadau, awgrymiadau, beirniadaeth a chanmolïaeth drwy ei gyfeiriad e-bost cyffredinol, sydd ar gael ar y wefan, er na fydd yn briodol neu'n bosibl ymateb i bob sylwad neu weithredu ar bob awgrym. Nodwyd hefyd bod gwrandawiadau Panel Dyfarnu Cymru yn gyhoeddus, a gall aelodau o'r cyhoedd fynychu'n bersonol, neu os fydd gwrandawriad cyhoeddus yn cael ei gynnal trwy fideo, gallent arsylwi ar-lein trwy drefniant.

5. Diweddariad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

5.1 Perfformiad a Llwyth Achos

Rhoddodd Michelle Morris, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, ddiweddariad ar berfformiad a llwyth achosion. Nododd yr aelodau fod adnoddau staff dros dro ychwanegol wedi cael eu buddsoddi yn y Tîm Cod, ynghyd â newidiadau gweithdrefnol i wella amseroldeb a lleihau achosion wedi dyddio. Roedd

hyn wedi cyfrannu'n sylweddol i leihad mewn ymchwiliadau wedi dyddio dros 12 mis, o 27 ar ddiwedd Mai 2025 i 6 ar ddiwedd Mai 2026.

Ar gyfer 2025/26, roedd y cwynion Cod newydd 3% yn uwch na'r flwyddyn flaenorol (cyfanswm o 351). Cafodd oddeutu 85% o gwynion Cod eu cau ar y cam asesu, gydag amser cau cyfartalog o 27 diwrnod yn erbyn targed o 42 diwrnod. Roedd y gyfran o gwynion a ddatblygodd i ymchwiliad wedi aros yn 15%, yn unol â'r flwyddyn flaenorol.

Nododd aelodau fod 85 o ymchwiliadau Cod wedi cau yn ystod 2025/26, o'i gymharu â 50 yn y flwyddyn flaenorol, a bod 15 o atgyfeiriadau wedi'u gwneud i Banel Dyfarnu Cymru neu Bwyllgorau Safonau, yr un ffigwr â'r flwyddyn flaenorol.

Mesur	31 Mai 2025	31 Mai 2026
Nifer yr ymchwiliadau ar agor	75	50
Nifer yr ymchwiliadau wedi dyddio dros 12 mis ar agor	27	6

5.2 Patrymau Cyfredol

Ar gyfer 2026/27, nododd y Fforwm, o 31 Mai 2026, bod 64 o gwynion Cod newydd wedi cael eu derbyn, gan gynrychioli cynnydd o 156% o'i gymharu â'r un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol. Nid oedd unrhyw themâu clir wedi'u canfod eto o'r cynnydd.

Oedran cyfartalog ar gyfer cau ar y cam asesu oedd 33 diwrnod, yn erbyn targed o 42 diwrnod, o'i gymharu â 27 diwrnod ar yr un pwynt y flwyddyn flaenorol. Oedran cyfartalog ar gyfer cau ar y cam ymchwilio oedd 190 diwrnod, o'i gymharu â 418 diwrnod ar yr un pwynt y flwyddyn flaenorol.

Nododd yr Aelodau bod saith atgyfeiriad at y Pwyllgorau Safonau yn aros am ddyddiadau gwrandawriad. Roedd pedwar gwrandawriad eisoes wedi digwydd ac roedd yr achosion o dorri cod wedi cael eu cynnal ymhob achos.

5.3 Blaenoriaethau

Roedd blaenoriaethau'r Ombwdsmon ar gyfer y flwyddyn yn cynnwys sefydlu newidiadau gweithdrefnol a wnaed, gan ddefnyddio cyllid ychwanegol i wneud swyddi Tîm Cod yn barhaol, atal achosion rhag dyddio a lleihau achosion wedi dyddio i sero.

5.4 Themâu Allweddol

Mae cydraddoldeb a pharch yn parhau i fod yn gategori dominyddol, yn cyfrif am oddeutu 50% o gwynion, a bydd yn parhau i gael ei flaenoriaethu gan swyddfa'r Ombwdsmon.

6. Hyfforddiant a Datblygu (Gwrandawiadau)

6.1 Pwyntiau Trafod Allweddol

Trafododd y Fforwm anghenion hyfforddi a datblygu mewn perthynas â gwrandawiadau. Roedd cefnogaeth gref ar gyfer hyfforddiant ymarferol ar gadeirio gwrandawiadau, gan gynnwys gwrandawiadau ffug a chyfleoedd i rannu profiadau rhwng awdurdodau.

6.2 Awgrymiadau

Roedd awgrymiadau yn cynnwys archwilio trefniadau mentora, gan gydnabod yr angen i ddiogelu annibyniaeth, ac ystyried a allai Cadeiryddion arsylwi gwrandawiadau lle bo'n briodol. Awgrymodd Aelodau hefyd y dylai hyfforddiant fod yn eitem sefydlog ar raglen y Fforwm.

6.3 Camau Gweithredu / Cyfleoedd

Cynigodd Llywydd Panel Dyfarnu Cymru ddarparu sesiwn hyfforddi ar wrandawiadau. Bydd angen trafodaeth bellach ar sut y gall hyn gael ei ddarparu a pha gapasiti all fod ar gael.

7. Achosion o Ddiddordeb

Roedd papur crynodeb yn cynnwys achosion o'r chwe mis diwethaf wedi cael ei rannu gan Justine Cass, Ymgynghorydd y Panel. Nododd yr Aelodau'r themâu allweddol yn ymwneud â chydraddoldeb a pharch, ynghyd â materion ymddygiad yn codi o ddefnydd e-bost a chyfryngau cymdeithasol.

7.1 Mater Allweddol a Godwyd

Mater allweddol a godwyd oedd y cydbwysedd rhwng darparu hyfforddiant a chefnogaeth gynnar i Gynghorau, wrth gynnal annibyniaeth lle gall faterion symud ymlaen i wrandawiad.

8. Eitemau a godwyd gan y Cadeiryddion Gwrandawiadau - Rhannu Profiadau

Amlygodd Mel Jehu, Cadeirydd Pwyllgor Safonau Merthyr Tudful, pa mor ddwys ac anghyfarwydd y gall cadeirio gwrandawiadau fod, yn arbennig ar gyfer Cadeiryddion newydd. Nododd Aelodau gall y ddau barti, gan gynnwys yr ymatebydd a chynrychiolydd yr Ombwdsmon, gael eu cynrychioli'n gyfreithiol, yn aml gan Gwnsler y Brenin. Dywedodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru bod swyddfa'r Ombwdsmon fel arfer yn cael ei gynrychioli gan Gwnsler y Brenin mewn prosesau o'r fath, a bod hyn yn adlewyrchu natur a ffurfioldeb y broses. Roedd cefnogaeth gref am wrandawiad ffug na threfniadau mentora fel ffordd o helpu Cadeiryddion i baratoi ar gyfer gofynion ymarferol, cymhlethdod a ffurfioldeb gwrandawiadau. Awgrymwyd hefyd y gellir datblygu rhestr yn dangos pa Gadeiryddion oedd â phrofiad blaenorol o wrandawiadau, ynghyd â natur yr apêl, i gefnogi dysgeidiaeth gan gyfoedion a chyfeirio.

9. Etholiadau Llywodraeth Leol 2027 - Sefydlu

Hysbysodd Cerith Thomas, Tîm Gwelliannau CLILC, y Fforwm fod deunyddiau sefydlu cenedlaethol yn cael eu datblygu cyn etholiadau llywodraeth leol 2027. Disgwylir i'r deunyddiau gynnwys dogfennau ar y Cod Ymddygiad, Deallusrwydd Artiffisial, cam wybodaeth ac ymddygiad digidol, ac ymwybyddiaeth o'r cyfryngau cymdeithasol. Nodwyd y byddai'r deunyddiau'n cael eu darparu yn lleol gan awdurdodau.

10. Unrhyw Fater Arall

Rhoddodd yr Aelodau adborth cadarnhaol ar werth y Fforwm fel gofod i rannu ymarfer a dysgu o brofiad ar draws Cymru. Awgrymwyd y dylai hyfforddiant gael ei gynnwys fel eitem sefydlog ar y rhaglen.

11. Dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf

Dydd Llun 25 Ionawr 2027, 2pm – 4:30pm dros Teams.